


THEATR
SPECTACLE
THEATRE

Shoesial

gan Paul Swift



“O’n ni yn meddwl bo’ ti yn ffrind neis”



Newid Ymddygiad Bwlio a Seiberfwlio

Dyweddodd **Maya Angelou** "There is no greater agony than bearing an untold story inside you"

Mae cymaint o ymddygiad bwlio yn parhau i fod yn gudd. Nid yw bwlio yn rhan anochel, ddiniwed, o dyfu i fyny, mae'n broblem ddifrifol sy'n effeithio ar gyflawniad person, ac yn gallu cael arwyddocâd nes ymlaen mewn bywyd. Gall arwain at salwch difrifol gyda mwy o debygolrwydd o fyw mewn tloidi.

Ein nod yw helpu galluogi pobl ifanc a chymunedau i ddechrau adnabod ymddygiad bwlio; y gwahaniaeth rhwng bwlio a phryfocio; pam fod

pobl ifanc yn bwlio; yr effaith mae'n cael ar y dioddefwr, y bwli, ac ar y rhai sy'n ei wylio o'r ymylon ac i ddatblygu strategaethau i gadw'n ddiogel. Mae'r prosiect yn addas iawn i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd neu wrth ddatblygu hyder ac empathi at eraill.

Mae'r prosiect hwn wedi ei gynllunio i newid ymddygiad seiberfwlio.

Rydym angen

- Gofod 6 medr o hyd a 4 medr ar led x 2.5 medr o uchder (mae hyblygrwydd)
- Mynediad i'r gofod o leiaf awr o flaen llaw i'r perfformiad er mwyn gosod
- Rhywle i newid (toiledau staff) neu ystafell fach o ryw fath
- Lle gerllaw i barcio'r fan yn ystod y perfformiad
- Aelod staff i fod yn bresennol yn ystod y perfformiad a'r gweithdy

Mae Sbesial yn cynnwys:

- Gweithdy rhyngweithiol sy'n addas i bobol ifanc 11+
- Pecyn adnoddau er mwyn parhau â'r gwaith
- Dwy app; un ar gyfer gwaith ymchwil ac mae'r llall yn cynnwys cwis ar gyfer pobl ifanc
- Ffilm Losers

'Sbesial'

Mae 'Sbesial' yn ddrama newydd gan **Paul Swift**, sy'n adrodd stori am gyfeillgarwch, am fwlio ac am beidio perthyn.

Stori dyn o'r enw Terry a merch unarddeg mlwydd oed o'r enw Megan yw **Sbesial**. Mae'r stori'n digwydd dros gyfnod o dri diwrnod yn ystod mis Mehefin ac wedi'i leoli mewn parc.

Ar ôl sgwrsio gyda bachgen sy'n hŷn na nhw ar Facebook, mae Megan a'i ffrindiau yn dod i'r parc i gwrdd ag e, ond yr unig berson sydd yno yw'r 'hen foi yma' sef Terry.

Mae'r plant yn gwneud hwyl am ei ben, ac yn rhedeg i fwrdd ond mae Megan yn gadael ei bag, a phan mae'n dychwelyd mae'r bag gan Terry. Mae Megan yn dod i ddeall bod gan y ddau dipyn o bethau'n gyffredin, a bod Terry yn wahanol iawn i'w hagraff gyntaf.

Mae **Sbesial** yn awr o hyd, gyda gweithdy rhyngweithiol yn ei ddilyn. Arweinir y gweithdy gan hwyluswyr drama profiadol (sy'n gymwys i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed, wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant, ac wedi derbyn gwiriad DBS) sy'n dechrau ar y broses o ddeall y meddyliau a'r teimladau mae'r perfformiad yn eu hysgogi.

ARCHEBWCH NAWR

Costau: Ysgolion

£350 + TAW – 1 diwrnod

£1200 + TAW – 1 wythnos

Cysylltwch â:

special.spectacletheatre@gmail.com



MANYLION CYSWILT

Spectacle Theatre Ltd

TABS

Penrhiwgwynt Road
Porth Rhondda Cynon Taf
CF39 9UB

01443 430700

special.spectacletheatre@gmail.com

www.spectacletheatre.co.uk



Theatr Spectacle Theatre



SpectacleTheat1

Spectacle Theatre is a company limited by guarantee, registered in Wales No. 01555311.
Registered Charity No. 1059118. VAT Reg. No. 656 1312 51

Mae Theatr Spectacle yn gwmni cyfyngedig dan warant, cofrestredig yng Nghymru Rhif 0155531.
Rhif Elusen Cofrestredig 1059118. Rhif Taw 6561312 51

